

# Cylchlythr



**Rhifyn 6 Hydref 2009**

Golygydd: Laurie Wright

**Grŵp Aberystwyth Gwyrddach**

[www.abergag.org.uk](http://www.abergag.org.uk)

## Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol GAG

Cynhelir ein cyfarfod blynyddol yng **Nghanolfan St Pauls, Morfa Mawr, Aberystwyth** ar **Nos Fawrth 27 Hydref 2009 am 7.30**. Bydd eitemau i'w trafod yn cynnwys ethol aelodau pwyllgor a swyddogion. Yn ôl y cyfansoddiad, rhaid bod trydydd rhan o'r pwyllgor yn ymddiswyddo bob blwyddyn. Gwahoddir enwebiadau i lenwi 4 lle, hefyd enwebiadau am swyddi'r Cadeirydd, Trysorydd ac Ysgrifennydd.

Os yw unrhyw aelod eisiau codi mater o dan AOB, bydd hi'n help i gysylltu â'r Ysgrifennydd cyn y cyfarfod (tri diwrnod os oes modd).

Ar ôl egwyl am de neu goffi, bydd ein siaradwr gwadd Rachel Mills, Swyddog Cynorthwyol Materion Tref Cyngor Ceredigion yn siarad am **"Your environment: Projects, Grime and Crime."**

## Cyrsiau mewn Cadwriaeth Coedwigoedd

Gwahoddir grwpiau o aelodau mudiadau i gyrsiau am ddim yn rhan o raglen Natural Links, yn ymwneud â chadwriaeth coedtiroedd, rhwng Tachwedd 2009 a Ionawr 2010. Bydd pob grwp yn cynnwys o leiaf 6 (hyd at 8), gan gynnwys aelodau cynorthwyol. Oedran lleiaf: 13. Bydd gweithgareddau yn ystod yr wythnos (e.e. 3 dydd Iau olynol), 9.30 – 3.30.

Mae rhaglen y tri diwrnod yn cynnwys: prysgoedio a theneuo coetir ifanc, cerffio llwy syml gan ddefnyddio caseg llyfnu bren ac offer traddodiadol, a phlethu perthi. Manylion gan:

Shared Earth Trust, Denmark Farm Conservation Centre, Betws Bledrws, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 8PB (tel. 01570 493358)



# Newsletter

**Greener Aberystwyth Group**

[www.aber-gag.org.uk](http://www.aber-gag.org.uk)

**No. 6 October 2009**

Editor: Laurie Wright

## GAG Annual General Meeting

Our AGM will be held at **St Paul's Centre, Queens Road, Aberystwyth** on **Tuesday 27 October 2009, at 7.30pm**.

Items on the Agenda include the election of committee members and officers. Under the Constitution one third of the committee must resign each year. Nominations are invited to fill 4 vacancies. Nominations are also invited for the posts of Chairman, Treasurer and Secretary.

It will be helpful if any Member wishing to raise an item under AOB contacts the Secretary before the Meeting (preferably three days before).

After a tea/coffee break, guest speaker Rachel Mills, Civic Pride Co-ordinator for Ceredigion, will speak on **"Your environment: Projects, Grime and Crime."**

## Woodland Conservation Courses

Community groups are invited to take part in the Natural Links programme of free courses connected with woodland conservation, available from November 2009 until January 2010. Each group will include a minimum of 6 / maximum of 8 participants including any support workers. Minimum age: 13. Activity days run on weekdays (e.g. 3 consecutive Thursdays), 9.30am to 3.30pm

The 3 day programme includes: coppicing and thinning young woodland, making a simple hand carved wooden spoon using a shave horse and traditional hand tools & hedge-laying. Details from the Shared Earth Trust, Denmark Farm Conservation Centre, Betws Bledrws, Lampeter, Ceredigion SA48 8PB (tel. 01570 493358)